COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 20 RHAGFYR 2017, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | HJ David |
| P Davies | DK Edwards | J Gebbie | T Giffard |
| CA Green | A Hussain | M Jones | MJ Kearn |
| DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy | Cyng |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | JC Spanswick |
| RME Stirman | G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE |
| E Venables | SR Vidal | MC Voisey | LM Walters |
| KJ Watts | CA Webster | DBF White | PJ White |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | JE Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, SK Dendy, RM Granville, DG Howells, RM James, B Jones, DG Owen a/ac SG Smith

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Randal Hemingway | Pennaeth Cyllid |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

102. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd DRW Lewis ddiddordeb personol yn Eitem 11 ar yr Agenda, gan ei fod yn Gadeirydd yr Undeb Credyd.

Datganodd y Cynghorydd JE Lewis ddiddordeb personol yn Eitem 11 ar yr Agenda, gan ei bod yn aelod o’r Undeb Credyd.

103. CYMERADWYO’R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion diwygiedig cyfarfod y Cyngor ar 29 Tachwedd 2017 (fel y’u cyflwynwyd) fel cofnod cywir.

104. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Croesawodd y Maer bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

Cyhoeddodd ei bod hi/ei Chonsort wedi ymweld yn gynharach yn y mis ag Ysbyty Tywysoges Cymru ac wedi rhoi syrpréis i'r staff ar yr holl wardiau drwy ddosbarthu sachau Santa. Syniad dau gyn-filwr lleol, Tom ac Alistair, oedd y sachau Santa. Gofynnodd y ddau i gwmnïau lleol am roddion o fisgedi, siocledi a phethau da eraill yn 'Weithred o Garedigrwydd' i staff yr ysbyty. Ychwanegodd eu bod hefyd wedi dychwelyd i ddosbarthu nifer fawr o deganau'n rhodd gan gwmni teganau o Swydd Efrog. Diolchodd i'r ddau gyn-filwr a oedd wedi trefnu hyn; i staff yr ysbyty a baratôdd de, coffi a mins peis yn rhodd gan siopau lleol Tesco ac i'r cwmni teganau sydd wedi addo rhoi mwy o deganau yn 2018.

Roedd wedi bod mewn sawl Gwasanaeth Carolau gan gynnwys un yn y Plasty a gynhaliwyd gan Arglwydd Faer Abertawe. Helpodd fy Ngwasanaeth Carolau innau i Elusennau'r Maer ac Eglwys Sant Ioan yng Nghaerdydd i godi arian i Ysbyty Llygaid Sant Ioan yn Jerwsalem. Mae'r ysbyty wedi cwblhau 113,000 o lawdriniaethau llygaid, a hynny'n aml mewn amgylchiadau anodd iawn.

Bu sawl ymweliad Nadolig hefyd â phob hostel, cartref nyrsio a llety gwarchod ac aethpwyd â bocsys o fisgedi i bob un ohonynt.

Roedd hefyd wedi cymryd rhan yn Fforwm Lluoedd Arfog Pen-y-bont ar Ogwr a gadeiriwyd gan Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, y Cynghorydd Richard Young. Yn bresennol yn y digwyddiad roedd nifer o sefydliadau cefnogi a darparwyr gwasanaethau gan gynnwys Cymdeithas Teuluoedd Milwyr a Llongwyr (SSAFA), y Lleng Brydeinig Frenhinol, Cyn-filwyr a chynrychiolwyr cymdeithasau tai. Roedd y Fforwm yn gyfle i sefydliadau yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ddod ynghyd i drafod ffyrdd o wella'r gefnogaeth i gymuned y lluoedd arfog. Roedd rhagor o gyfarfodydd wedi'u trefnu i Fforwm y Lluoedd Arfog y flwyddyn nesaf er mwyn parhau â'r gwaith da a ddechreuwyd yn ddiweddar.

Dywedodd y Maer iddi fwynhau cwrdd â phobl ifanc yn Ysgol Heronsbridge a berfformiodd 'Beauty and the Beast'. Roedd yn deimladwy iawn ac roedd y canu'n bleser i bawb. Roedd am ddiolch i bawb a gymerodd ran, ac i'r staff am eu holl waith caled mewn amgylchiadau a oedd weithiau'n anodd iawn.

<u>Y Dirprwy Arweinydd</u>

Roedd y Dirprwy Arweinydd am atgoffa'r Aelodau y byddai'r trefniadau casglu gwastraff a deunydd ailgylchu dros yr ŵyl yn golygu y byddai'r casgliadau'n digwydd ddeuddydd yn hwyrach nag arfer yn ystod wythnos y Nadolig, a ddiwrnod yn hwyrach nag arfer yn yr wythnos ar ôl y Calan. Byddai'r casgliadau'n dilyn y drefn arferol o ddydd Llun 8 Ionawr. Dywedodd fod modd ailgylchu'r rhan fwyaf o wastraff y Nadolig bellach. Rhagwelid ei bod yn debygol mai papur lapio Nadolig a pholystyren fyddai'r eitemau na ellid eu hailgylchu gan mwyaf. Gallai preswylwyr naill ai fynd â'u gwastraff ychwanegol i ganolfan ailgylchu gymunedol, neu ei roi mewn bag du ar wahân. Byddai'r canolfannau ailgylchu cymunedol ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan, ond byddent ar agor bob diwrnod arall o 8:30am–4:30pm. Byddai modd ailgylchu coed Nadolig go iawn yn y canolfannau ailgylchu cymunedol yn Llandudwg, Brynmenyn a Maesteg, neu yng Nghanolfan Waterton y cyngor ym Mhen-y-bont ar Ogwr o 2 Ionawr bob dydd heblaw ar ddydd Sul. Roedd mwy o wybodaeth ar gael ar dudalennau ailgylchu'r cyngor yn www.recycleforbridgend.wales.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd rai dyddiadau eraill i'w nodi yn nyddiaduron yr Aelodau.

Byddai sesiwn wybodaeth cyn y cyngor ar 31 Ionawr ar Weithredu Credyd Cynhwysol, ac un arall ar 28 Chwefror ar y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi'i drefnu am 9am ddydd Mawrth 9 Ionawr, a byddai'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn darparu sesiwn wybodaeth am 4pm ar yr un diwrnod lle byddai'n sôn am ei waith dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i drefnu am 9.30am ar 29 Ionawr, ac eto am 4pm ar 6 Chwefror. Byddai'n cael ei ddarparu gan Stonewall, a'r bwriad oedd galluogi aelodau i ymdrin yn gyfrinachol â materion LGBT a godir gan etholwyr. Byddai mwy o wybodaeth yn cael ei ddarparu yn y flwyddyn newydd.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd fod adroddiad wedi mynd i'r Cabinet ddoe ar Lunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd am ddiolch i aelodau'r cyhoedd am gymryd rhan yn y broses ymgynghori ynghylch hyn. Cafwyd mwy o fewnbwn na'r llynedd, ac roedd yn bosib mai CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn awr oedd yr awdurdod mwyaf llwyddiannus yng Nghymru o ran ymgynghori ar hyn ac ar Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig.

Yn olaf, talodd y Dirprwy Arweinydd deyrnged i Mr Randal Hemingway, Pennaeth Cyllid a Swyddog A151, a fyddai'n gadael yr Awdurdod cyn hir i fynd i borfeydd newydd. Cadarnhaodd fod ganddo berthynas ragorol â Randal, a'i fod wedi cael nifer fawr o gyfarfodydd un ag un ag ef dros y 18 mis diwethaf, er mwyn gwneud penderfyniadau anodd iawn ynglŷn â chyllid yr Awdurdod. Roedd yn ei ystyried yn weithiwr diflino ac yn aelod gwerthfawr iawn o'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Dymunodd y Dirprwy Arweinydd yn dda iddo yn y dyfodol.

<u>Aelod y Cabinet dros Gymunedau</u>

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau ei fod yn ymwybodol fod llawer o Aelodau wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru yn sgil y ddamwain drasig lle collodd Rhys Rubery ei fywyd, i'w hannog i helpu i ariannu gwelliannau diogelwch ar hyd yr A48.

Cafodd y gwelliannau hyn eu clustnodi mewn adroddiad annibynnol a drefnwyd gan y cyngor.

Er na fu ein cynnig cyntaf am gyllid i Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus, roedd wedi cytuno i'n rhoi ar restr wrth gefn o gynlluniau.

Roedd yn dda ganddo roi gwybod i'r Aelodau hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar eu pryderon ac wedi rhoi arian i ni a gymerwyd o danwariant ar brosiectau eraill er mwyn i ni allu dechrau bwrw ymlaen â'n cynlluniau.

Roedd cyfanswm o £100,000 yn cael ei neilltuo yn y flwyddyn ariannol hon. Y bwriad oedd ei ddefnyddio i ddechrau'r gwaith cychwynnol ar y cynllun a'r gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i roi cefnogaeth y flwyddyn nesaf er mwyn cwblhau'r gwelliant pwysig hwn i ddiogelwch ffyrdd.

Cadarnhaodd ei fod am ddiolch i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am wrando ar y Cyngor yn hyn o beth, a chydnabu hefyd ymdrechion aelodau'r Cyngor hwn yn hyn o beth.

Roedd Aelod y Cabinet dros Gymunedau'n falch na welodd y Fwrdeistref Sirol yr un faint o eira ar ddechrau'r gaeaf â rhannau eraill o'r wlad, ond effeithiwyd serch hynny ar lawer o'n cymunedau yn y cymoedd ac roedd y tymheredd rhewllyd yn golygu bod amodau gyrru'n beryglus ledled yr ardal.

Fel arfer, roedd ein tîm priffyrdd wedi bod yn gweithio ddydd a nos i sicrhau bod pethau'n dal i symud yn y Fwrdeistref Sirol, ac i gadw gyrwyr, ffyrdd ac eiddo fel ei gilydd yn ddiogel rhag elfennau gwaethaf tywydd y gaeaf.

Gan fod 490 o filltiroedd o ffyrdd yn yr ardal, roedd hynny'n dipyn o dasg, yn enwedig o ystyried bod dyletswyddau'r criwiau hefyd yn cynnwys pethau fel clirio ceunentydd i atal llifogydd, trwsio ceudyllau ac ymateb i ystod eang o broblemau, llawer ohonynt ar adegau pan fo pawb arall yn glyd yn eu gwelyau.

Maent yn gwneud cyfraniad aruthrol i'n cymunedau lleol, ac roedd yn sicr y byddai'r aelodau am ymuno ag ef a diolch i'n staff priffyrdd am eu hymdrechion.

Yn olaf, dywedodd fod y gwaith £3m i ailosod y 'traeth tarmac' ym Mhorthcawl yn mynd rhagddo, ac y gallai'r aelodau ddisgwyl gweld mwy o weithgarwch ar y safle dros yr wythnosau nesaf.

Mae'r traeth sydd yno ar hyn o bryd yn amddiffyn 260 o unedau eiddo a busnesau ar lan y môr rhag llifogydd ac erydu arfordirol ers 1984, ac yn y flwyddyn newydd byddai cwmni contractwyr Alun Griffiths yn cynnal digwyddiad cyhoeddus ym Mhafiliwn y Grand i ateb cwestiynau ac i ddangos sut y byddai'r traeth terasog newydd yn parhau i wneud y gwaith pwysig hwn.

Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu'n rheolaidd, a gallai pobl gadw llygad ar y datblygiadau diweddaraf drwy fynd i community.alungriffiths.co.uk a chwilio am draeth tref Porthcawl o dan 'prosiectau'.

<u>Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Apêl Santa CBS Pen-y-bont ar Ogwr eleni wedi'i threfnu unwaith eto gan dîm Cefnogi Busnes Cymorth Cynnar y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Bu cynnydd mawr yn rhestr enwau'r plant haeddiannol a gyflwynwyd eleni, ac a dweud y gwir roedd dwywaith cymaint o enwebiadau wedi dod i law ag yn y blynyddoedd a fu.

Roedd yr apêl yn cael cefnogaeth aruthrol gan Ysgol Brynteg, Bridge FM ac ysbyty Hafod y Wennol (RhCT), ond hyd yn oed gyda'u hymdrechion gwych nhw, yn anffodus roedd y galw'n fwy o lawer na'r cyflenwad. Dywedodd fod y cyfryngau cymdeithasol wedi'u defnyddio, a chyda chymorth tîm Marchnata CBS Pen-y-bont ar Ogwr, cafodd y Cyngor yr hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel ymateb aruthrol gan staff y Cyngor Bwrdeistref a phreswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr.

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn wirioneddol deimladwy gweld yr holl anrhegion a gafodd eu dadlwytho gan blant Brynteg ddoe ynghyd â sacheidiau o roddion gan Bridge FM, Hafod y Wennol a mannau eraill. Roedd am ddiolch i'r holl staff a helpodd i glustnodi'r plant hyn yn y lle cyntaf, i blant a staff Brynteg am eu hymdrechion aruthrol a hefyd i'w gydweithwyr yn ei dîm ei hun ac mewn timau eraill a helpodd i gasglu'r anrhegion ynghyd. Wrth gwrs, roedd yn rhaid diolch yn fawr iawn hefyd i holl bobl garedig Pen-y-bont ar Ogwr a staff y Cyngor Bwrdeistref a brynodd anrhegion i blant llai ffodus na nhw eu hunain.

Ychwanegodd fod aelod o staff a pherson ifanc o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi rhoi help llaw hefyd i lapio a didoli anrhegion drwy gydol y dydd.

Dyma waith tîm gwirioneddol, ac roedd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar o'r farn fod hyn yn dangos gwir ystyr y Nadolig.

Roedd trigolion, sefydliadau ysgolion a busnesau caredig wedi rhoi cannoedd o anrhegion i blant difreintiedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel na fyddent ar eu colled dros yr ŵyl.

Eleni, byddai dros 300 o blant difreintiedig yn cael anrhegion i'w hagor ar ddydd Nadolig diolch i wirfoddolwyr fel y rhai y soniwyd amdanynt uchod, a busnesau a phreswylwyr fel ei gilydd.

Amser i roi yw'r Nadolig, a phwy sy'n haeddu ychydig o hwyl yr ŵyl yn fwy na phlant agored i niwed, yn arbennig y rhai sydd mewn gofal ac sydd wedi'i chael hi'n anodd iawn y tymor hwn?

Yn rhan o'i 'Hapêl Santa' flynyddol, cododd Ysgol Gyfun Brynteg swm clodwiw iawn o £4,757.32 drwy drefnu amryw o weithgareddau, megis gwerthu losin, teithiau cerdded noddedig, gwerthu cacennau, a chynnal carolathon, yn ogystal â phacio bagiau yn Sainsbury's.

Llwyddodd y disgyblion i brynu anrhegion i gyfanswm o 160 o blant a phobl ifanc ledled y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal, maent wedi rhoi £500 i'r Lloches i Fenywod.

Unwaith eto, cyfrannwyd nifer aruthrol o anrhegion i Apêl Teganau Nadolig flynyddol Bridge FM, a gadawyd cant o'r anrhegion hynny gyda thîm Diogelu CBS Pen-y-bont ar Ogwr i'w dosbarthu i blant mewn angen.

Aeth aelodau o staff Hafod y Wennol ym Mro Morgannwg, uned asesu a thrin oedolion ag anableddau dysgu, yr ail filltir y Nadolig hwn drwy annog eu ffrindiau a'u teuluoedd i roi anrhegion i blant o bob oedran. Drwy eu haelioni nhw bydd mwy na 70 o blant a phobl ifanc yn cael cwdyn Nadolig yn llawn anrhegion eleni.

Cyhoeddodd ei fod yn falch iawn o weld bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'n ddiweddar y bydd yn buddsoddi £68m i greu pedair ar bymtheg o ganolfannau iechyd a gofal cymunedol newydd ledled Cymru.

Byddai'r aelodau'n falch o glywed bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn un o'r ardaloedd a fydd yn elwa ar y buddsoddiad sylweddol hwn, ac roedd trafodaethau eisoes wedi cychwyn a allai arwain at sefydlu canolfan gofal sylfaenol newydd sbon yng nghanol y dref, a fyddai'n dod ag amryw o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau cymunedol at ei gilydd o dan un to.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud mai dyma ei buddsoddiad unigol mwyaf wedi'i dargedu at seilwaith gofal sylfaenol a chymunedol, ac roedd darparu cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig yn rhan allweddol o agenda Symud Cymru Ymlaen.

Y bwriad oedd sefydlu ystod o gyfleusterau cydgysylltiedig sy'n agosach o lawer at y gymuned leol, a byddai gofyn i'r byrddau iechyd, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau gwirfoddol gydweithio'n agos.

Megis dechrau yr oedd y prosiect, a byddai'n amodol ar gytuno ar achosion busnes llwyddiannus a chadarnhad y bydd modd ei adeiladu erbyn 2021.

Roedd yn gobeithio gallu rhoi mwy o newyddion am y buddsoddiad cyffrous hwn i'r Aelodau cyn hir.

Roedd staff Gofal Cymdeithasol i Blant yn falch o gyhoeddi bod uned breswyl newydd 52 wythnos wedi'i chwblhau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth gan gynnwys

anableddau dysgu, o wyth i ddeunaw oed. Enw'r uned breswyl newydd fyddai Tŷ Harwood, ar ôl cyfenw'r gofalwr sydd yno ar hyn o bryd ac yr arferai'r adeilad fod yn gartref iddo, ac sydd wedi bod yn gweithio yn yr ysgol am dros 30 mlynedd. Mae Tŷ Harwood yng ngerddi ysgol Heronsbridge ac mae'n rhaid i'r bobl ifanc sy'n cael eu derbyn yno fynd i ysgol Heronsbridge.

Agorodd yr uned ar 16 Tachwedd 2017 a symudodd y person ifanc cyntaf i mewn ar y dyddiad hwnnw. Byddai ail berson ifanc wedi'i dderbyn yn ddiweddar ac roedd trydydd lleoliad ar y gweill.

Byddai agoriad ffurfiol y cartref ar 18 Ionawr 2018 yn ysgol Heronsbridge, ac roedd y prosiect wedi dwyn ffrwyth diolch i gydweithredu cadarnhaol rhwng amrywiol gyfarwyddiaethau'r Cyngor.

Roedd y staff gwaith cymdeithasol yn falch iawn o allu dweud bod y bobl ifanc sydd yno ar hyn o bryd yn hapus iawn, a dywedodd un gweithiwr cymdeithasol y byddai "wedi talu miliwn o bunnoedd i weld y wên honno" pan symudodd un o'r plant i mewn a gweld yr ystafell wely.

Roedd y lleoliad a'r ffaith bod y ddarpariaeth hon ar gael yn golygu y byddai plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu aros yn agos at ei gilydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd roedd y math hwn o ddarpariaeth yn bellach i ffwrdd fel arfer.

<u>Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod mwy na 100 o bobl hŷn a phobl ag anableddau wedi mynd i Ganolfan Bywyd Bethlehem yng Nghefn Cribwr yn ddiweddar ar gyfer 'Gemau OlympAge' 2017. Trefnwyd y digwyddiad gan yr adran Atal a Llesiant mewn partneriaeth â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr a Chwaraeon Cymru, a daeth timau at ei gilydd o grwpiau cymunedol lleol, lleoliadau gofal a chanolfannau dydd i sianelu eu 'Mo Farah' mewnol a chystadlu mewn amryw o weithgareddau arbennig.

Yn ogystal â bod yn llawer o hwyl ac yn gyfle i wneud ffrindiau newydd, roedd y gemau'n rhan o fenter llesiant i wella llesiant corfforol a meddyliol pobl.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn hynod falch o gynrychioli eu cymunedau. Fe wnaethant fwynhau cymysgu â'r holl grwpiau eraill a chael hwyl gyda nhw, ac fe ddywedodd sawl un eu bod yn edrych ymlaen yn barod at gemau 2018. Roedd am ddiolch i bawb a helpodd i drefnu'r digwyddiad hwn a wnaeth gymaint o argraff.

Efallai y byddai'r Aelodau am roi gwybod i'w hetholwyr hefyd fod Cynllun Grant y Gist Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau a chlybiau chwaraeon lleol i wneud cais am gyllid.

Cynllun yw hwn dan ofal Chwaraeon Cymru drwy Gronfa Chwaraeon y Loteri yng Nghymru ac mae'n cael ei reoli'n lleol drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cynllun yn croesawu ceisiadau gan brosiectau neu fentrau 'llawr gwlad' sy'n annog pobl i wneud mwy o ymarfer corff.

Roedd cyfanswm o £29,000 yn dal ar gael, a gallai sefydliadau wneud cais am grantiau o hyd at £1,500. Roedd enghreifftiau o'r modd y mae'r gronfa wedi'i defnyddio yn y gorffennol yn cynnwys costau cychwyn, dysgu hyfforddwyr, datblygu gwirfoddolwyr, offer newydd, hyfforddiant, costau cychwynnol llogi cyfleusterau a hyfforddwyr a mwy.

Mae rhagor o arian ar gael i glybiau sy'n hyrwyddo chwaraeon i fenywod a merched, chwaraeon anabledd a chynhwysiant cymdeithasol.

I gael gwybod mwy am y cynllun ewch i www.sportwales.org.uk.

Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei fod yn falch yr wythnos diwethaf pan ofynnodd Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Chymorth i Deuluoedd iddo ddarparu rhagair i rifyn cyntaf cylchlythyr tymhorol Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cylchlythyr hwn yn dathlu gwaith rhagorol ein hysgolion, ac roedd y rhan fwyaf o'i gyhoeddiadau y mis hwn yn deillio o'r cylchlythyr hwnnw.

Yn gyntaf, Ysgol Gatholig Sant Robert yn Abercynffig yw'r ysgol gyntaf yng Nghymru i ennill Gwobr Ysgol Arian SAPERE a gyflwynwyd er mwyn cydnabod ei hymrwymiad i'r dull 'Athroniaeth i Blant'. Y Gymdeithas er Hybu Ymchwilio Athronyddol a Myfyrio mewn Addysg yw SAPERE. Enw arall ar y gymdeithas yw P4C, ac mae'n helpu i hybu sgiliau rhesymu a meddwl ar lefel uwch mewn plant, ac yn cefnogi eu hunan-barch, cymhelliant a chyfathrebu.

Roedd Estyn wedi cydnabod Ysgol Gynradd Bracla fel enghraifft o arfer gorau o ran cyflwyno dysgu drwy chwarae. Roedd adroddiad newydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Estyn ynghyd â ffilm fer, ac argymhellodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio yn gryf y dylai'r aelodau edrych yn agosach arno.

Cododd disgyblion Ysgol Gyfun Porthcawl swm clodwiw iawn o £4,000 mewn dim ond pum diwrnod yn ystod dathliadau blynyddol wythnos elusennau eleni, ac roedd o'r farn fod hynny'n dangos gwaith tîm aruthrol gan bawb. Byddai'r arian yn cael ei roi i elusennau a sefydliadau lleol.

Enillodd Ysgol Cynwyd Sant ac Ysgol Gyfun Bryntirion wobrau Rhagoriaeth mewn Addysg yng ngwobrau Estyn yn ddiweddar, mae Ysgol Gynradd Cwmfelin wedi ennill statws Eco Platinwm, ac mae Ysgol Gynradd Brynmenyn wedi bod yn gweithio gydag ysgolion o Fro Morgannwg ar brosiect 'Polly Nation' i wneud gerddi'r ysgol yn gynefin naturiol i wenyn a phryfed peillio eraill.

Yn olaf, wedi iddynt ymddangos yn Eisteddfod yr Urdd ac ar raglen This Morning ar ITV, roedd côr Ysgol Gynradd Croesty wedi'i ddewis i berfformio yn Arena O2 yn Llundain yng nghyngerdd Young Voices 2018, ac roedd yn sicr y byddent yn parhau i wneud argraff ar bawb a'u clywai.

Roedd am longyfarch pob un ohonynt ar y llwyddiannau sylweddol hyn.

Y Prif Weithredwr

Dywedodd y Prif Weithredwr fod ganddo ddau gyhoeddiad i'w rhannu â'r Cyngor heddiw. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r amcanion a osodwyd iddo fel Prif Weithredwr a'r ail yn ymwneud â newidiadau staffio.

Targedau'r Prif Weithredwr

Mae holl staff CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cael arfarniad ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Cadarnhaodd fod hynny'n cynnwys ei swydd yntau fel Prif Weithredwr, ac roedd wedi cwrdd yn ddiweddar â Phanel Arfarnu'r Aelodau, a oedd wedi gosod nifer o amcanion iddo dros y misoedd nesaf. Roedd am roi gwybod i'r holl Aelodau beth oedd yr amcanion hynny, sef:-

1. Cyflawni'r cynllun corfforaethol a strategaeth ariannol y tymor canolig.

2. Adolygu strwythur cyflogau'r uwch reolwyr (y cytunwyd arno yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor) ac adolygu strwythur yr uwch reolwyr fel y bo'n briodol.
3. Rhoi'r trawsnewidiad digidol ar waith a'i estyn i sicrhau cymaint o fudd â phosib.
4. Parhau i gyfrannu at arwain a datblygu Bargen Ddinesig Caerdydd gan sicrhau bod buddiannau Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gwarchod.
5. Ymwneud â Llywodraeth Cymru'n unigol a thrwy fforymau cenedlaethol a rhanbarthol i ddylanwadu ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru, a sut y mae hyn yn effeithio ar Ben-y-bont ar Ogwr.
6. Paratoi i symud Ardal Pen-y-bont ar Ogwr o PABM i Gwm Taf, ac os cytunir i wneud hynny, goruchwylio'r newid(iadau).
7. Comisiynu astudiaeth neu adolygiad o'r galw yn y dyfodol am wasanaethau a fydd ar yr Awdurdod dros y cyfnod tair i bum mlynedd nesaf.
8. Sicrhau bod argymhellion arolwg AGGCC o wasanaethau cymdeithasol plant yn cael eu gweithredu'n llawn.

Byddai rhywfaint o'r uchod, meddai, yn cael ei raeadru i'r Cyfarwyddwyr i'w ymgorffori yn y gwahanol Gynlluniau Busnes sydd gan wahanol adrannau'r Cyngor.

Newidiadau staffio

Roedd am roi gwybod i'r Aelodau fod Deborah McMillan, Cyfarwyddwr Addysg y Cyngor, wedi ei phenodi'n Gomisiynydd Plant ynys Jersey. Roedd yn ymwybodol efallai nad oedd llawer o'r aelodau a ymunodd â'r Cyngor ym mis Mai yn adnabod y swyddog dan sylw. Cychwynnodd Deborah secondiad dwy flynedd gyda Llywodraeth Cymru'n gynharach eleni a bryd hynny cafodd Lindsay Harvey ei recriwtio'n Gyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd dros dro.

Roedd yn destun clod i Ben-y-bont ar Ogwr ac i Mrs. McMillan ei bod wedi ei gwahodd yn gyntaf i gynorthwyo Llywodraeth Cymru a'i bod bellach wedi symud ymlaen i fod yn Gomisiynydd Plant, ac roedd yn sicr y byddai'r Cyngor am ymuno ag ef wrth ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Roedd hynny'n golygu y byddai'n rhaid i ni fel Cyngor benodi Cyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd parhaol, ac roedd yn gobeithio bwrw ymlaen â hynny yn y flwyddyn newydd. Rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â Chyngor Merthyr Tudful ynghylch rhannu Cyfarwyddwr Dros Dro CBS Pen-y-bont ar Ogwr, gyda golwg ar integreiddio'r gwasanaeth cyfan yn agosach ac efallai gynnig gwasanaeth ar y cyd yn y pen draw yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Roedd hynny hefyd yn ei farn ef yn destun clod i Ben-y-bont ar Ogwr, ac yn yr achos hwn i Lindsay Harvey, ac roedd enw da i'r ddau ym maes addysg ledled y rhanbarth a thu hwnt.

Byddwn yn awr yn gallu ystyried y cynnig gyda Merthyr mewn cyd-destun ychydig yn wahanol, a chynigiodd y dylid cynnal trafodaethau pellach â'r Cabinet ac Arweinwyr y grwpiau yn y flwyddyn newydd ynghylch y ffordd orau ymlaen yn hynny o beth.

Ac yn olaf, fel y gwyddai'r Aelodau, dyma oedd ymddangosiad olaf Randal Hemmingway yn y Cyngor cyn iddo adael CBS Pen-y-bont ar Ogwr i gychwyn ei rôl newydd gyda Chyngor Sir Gâr. Pan ymunodd Randal â CBS Pen-y-bont ar Ogwr nid oedd wedi gweithio mewn awdurdod lleol o'r blaen nac wedi bod yn swyddog A151 mewn Cyngor.

Roedd yn sicr y byddai'r Aelodau i gyd yn cytuno bod Randal wedi dod i ben yn hynod o dda â'r ddwy her honno. Roedd yn ddiolchgar iddo am hynny ac am y cefndir masnachol a'r safbwyntiau corfforaethol a cholegol yr oedd wedi'u cyfrannu i'r rôl yma.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Aelodau hefyd i Gill Lewis, a oedd yn cychwyn yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr fel Pennaeth Cyllid a swyddog A151 dros dro, fel yr oedd yr Aelodau eisoes wedi cael gwybod. Byddai llawer o'r Aelodau'n adnabod Gill ac wedi gweithio gyda hi o'r blaen, ond byddai Gill yn wyneb newydd i'r Aelodau newydd a gafodd eu hethol eleni. Roedd yn ddiolchgar iddi hi ac i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gamu i'r adwy i ddarparu cymorth dros dro, a fyddai'n ei alluogi i ystyried y trefniadau parhaol yn unol â'r amcanion a osodwyd iddo yn ei arfarniad.

105. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru, fel y byddai'r Aelodau efallai wedi'i weld yn gynharach yr wythnos honno, wedi cyhoeddi ei hymgynghoriad ar gynigion i drosglwyddo gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn lle Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC, yn bwriadu gosod y Fwrdeistref Sirol ym mhatrwm rhanbarthol De Ddwyrain Cymru o ran darpariaeth gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gyd-fynd â phartneriaethau economaidd ac addysgol sy'n bodoli eisoes.
Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol Alun Davies.

Roedd manylion llawn y cynigion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, ac roedd sylwadau'n cael eu gwahodd tan y dyddiad cau ar 7 Mawrth 2018.

Roedd yr Arweinydd yn sicr y byddai'r Aelodau am edrych yn fwy manwl ar hyn, a mynegi eu safbwyntiau, ac annog preswylwyr lleol i ddweud eu dweud.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi dweud wrth yr aelodau yn y cyfarfod diwethaf am y posibilrwydd o ddatblygu Canolfan Logisteg yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym Mrocastell ar gyfer adeiladu trydedd llain lanio yn Heathrow. Roedd gennym ddwsinau o fusnesau lleol a oedd mewn sefyllfa dda i allu gwasanaethu Canolfan o'r fath, ac roedd y Cyngor yn cynorthwyo AS Pen-y-bont ar Ogwr i drefnu digwyddiad yn y flwyddyn newydd i ddangos y busnesau llwyddiannus sydd gennym yn y Fwrdeistref Sirol. Pan gwrddodd â'r Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n ddiweddar, manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i gyflwyno'r achos dros sefydlu Canolfan Logisteg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Prif ddiben y cyfarfod â Damien Green AS ac Alun Cairns AS oedd trafod effaith Brecsit ar Gymru. Roedd holl Arweinwyr De Cymru, o bob plaid wleidyddol, o'r un farn, sef bod angen i ni sicrhau pan sefydlir y gronfa ffyniant ar y cyd ein bod yn cynnal lefel y buddsoddiad sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar hyn o bryd drwy'r Undeb Ewropeaidd.

Dywedodd yr Arweinydd ein bod wedi gwneud cais yn ddiweddar am gyfarfod â Network Rail i drafod Canolfan Drafnidiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr i wella mynediad i'r gwasanaeth bysiau i Orsaf Drenau Pen-y-bont ar Ogwr, a bod y cyfarfod hwnnw wedi digwydd. Fel y gwyddai'r Aelodau, roedd y gwasanaeth bysiau uniongyrchol i Orsaf Drenau Pen-y-bont ar Ogwr yn wael, ac roedd hynny i raddau helaeth oherwydd trefn gyfyngedig y ffyrdd a mynediad i'r orsaf. Ar ôl cael cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd, roeddem yn barod i ddechrau ar y gwaith dros ddegawd yn ôl. Cafodd hynny ei rwystro ar y funud olaf yn 2012 gan Network Rail a oedd wedi cefnogi hyn, oherwydd bod angen y tir i drydaneiddio'r brif linell. Yn y cyfarfod yr wythnos diwethaf roedd swyddogion

Network Rail yn gadarnhaol iawn ynghylch ein cynlluniau, a dywedodd y byddai'n rhoi gwybod i'r Aelodau am unrhyw ddatblygiadau yn hynny o beth.

Fel y gwyddai'r Aelodau lleol, roedd gwaith yn mynd rhagddo o'r diwedd ar hen safle glo brig Margam.

Roedd y safle wedi bod yn destun pryder mawr i drigolion Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr. Gan na chyflawnwyd y cynllun adfer gwreiddiol gan Celtic Energy a'r tirfeddianwyr Oak Generation, mae Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot wedi bod yn cydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo.

Roedd yr hen strwythurau diwydiannol yn cael eu dymchwel, roedd gwaith tirlunio'n digwydd, ac roedd system ddraenio newydd wedi'i gosod i sicrhau bod lefelau'r dŵr yn ddiogel. Roedd coed, llwyni a glaswellt wedi'u plannu, ac ar ôl troi'r lle gwag yn llyn sy'n 700m yn y man lletaf, y bwriad oedd creu ardal werdd agored ar y safle, lle gallai byd natur ffynnu.

Yn wir, meddai'r Arweinydd, roedd madfallod dŵr cribog, pathewod a rhywogaethau prin eraill eisoes yn ffynnu ar y safle cyn i'r gwaith adfer gychwyn. Roedd Arweinydd CBS Castell-nedd Port Talbot, y Cynghorydd Gebbie ac yntau, ynghyd â Swyddogion wedi ymweld â'r safle'n ddiweddar, a gallent weld sut roedd bywyd gwyllt wedi ymladd yn ôl ac wedi ailsefydlu'n naturiol mewn sawl man.

Roedd disgwyl i lawer o hawliau tramwy cyhoeddus fod wedi'u hailsefydlu'n llawn erbyn diwedd 2018, ac roedd y gymuned leol yn edrych ymlaen at weld yr hen ardal ddiwydiannol yn dod yn hafan i fywyd gwyllt y gallai pawb ei mwynhau.

106. CYNLLUN ADFYWIO PORTHCAWL

Cyflwynodd y Swyddog A151 a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad, er mwyn:

a. Cael cymeradwyaeth y Cyngor i gynllun cyfalaf diwygiedig o 2017-18 tan 2026-2027
b. Rhoi gwybod i'r Aelodau fod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 19 Rhagfyr 2017 yn:

(i) rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am Gynllun Adfywio Porthcawl
(ii) rhoi gwybod bod cynnig wedi'i dderbyn gan y teuluoedd Evans, i werthu eu buddiant fel lesddeiliaid mewn tir Cam 1 ym Maes Parcio Salt Lake i'r Cyngor;
(iii) cyflwyno telerau'r cynnig hwn, a nodi'r effaith ganlyniadol ar weddill Cynllun Adfywio Porthcawl;
(iv) rhoi gwybod i'r Aelodau am y 'diwydrwydd dyledus' a arferwyd hyd yma, a'r mesurau pellach a fydd yn cael eu cymryd i warchod buddiannau'r cyhoedd; argymhellwyd y dylid derbyn y cynnig.

Yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2017, awdurdododd y Cabinet y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau, drwy ymgynghori â'r Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro:

(a) I gaffael buddiannau prif brydles ac is-brydles y teuluoedd Evans ym Maes Parcio Salt Lake ym Mhorthcawl am £3,330,000 a'r telerau a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn;

(b) I amrywio'r Cytundeb Perchnogion cyfredol dyddiedig 11 Mawrth 2011 rhwng y Cyngor a'r teuluoedd Evans, ar y telerau a amlinellir ym mharagraff 4.11 yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir, ac yn cadarnhau bod perchnogion y tir ym Mhorthcawl wedi cytuno yn 2006 i weithio ar y cyd, drwy ddod â'r buddiannau rhydd-ddaliadol a lesddaliadol a oedd yn cwmpasu daliadau tir sylweddol yn y dref at ei gilydd. Y nod oedd cyflwyno'r tir i'w werthu, gan ddarparu derbynebau gwerthiant i'r perchnogion i'w rhannu ar sail a gytunwyd ymlaen llaw yn amodol ar sicrhau isafswm o ran prisiau; a darparu cyd-destun cynllunio clir ar gyfer gwaredu safleoedd i'w datblygu gan drydydd partïon.

Ym mis Tachwedd 2007, mabwysiadodd y Cyngor Ganllawiau Cynllunio Atodol Adfywio Porthcawl. Roedd hyn yn darparu ar gyfer cartrefi newydd yn yr ardal gyfan ynghyd â datblygiadau manwerthu a hamdden mawr, darpariaeth gymunedol, systemau ffyrdd newydd, tir wedi'i neilltuo ar gyfer darpariaeth iechyd, ac ardaloedd amwynder cyhoeddus eraill, gan gynnwys amddiffynfeydd môr newydd ar hyd Promenâd y Dwyrain a glannau Sandy Bay.

Rhannwyd yr ardal ddatblygu gyfan yn ddau gam:

- Roedd Cam Un yn cynnwys maes parcio Hillsborough, The Green a maes parcio Salt Lake
- Roedd Cam Dau yn cynnwys Parc Adloniant Traeth Coney a chyn faes carafanau Sandy Bay.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am hanes gwaredu'r tir, ac yn 2014, ar ôl methu â gwerthu'r safle i Morrisons (a chynigion i werthu'r safle yn 2010 i Tesco / Chelverton), gwnaed amryw o gynigion i gaffael buddiant y Cyngor. Gwrthodwyd y rhain gan nad oedd cysylltiad â'r farchnad (o ran sicrhau'r ystyriaeth orau) ac nad oedd natur y cynnig yn bodloni'r gofynion isaf o ran pris nac amcanion adfywio'r Cyngor.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y partïon wedi cytuno yn 2015 i adolygu'r cynigion datblygu yn sgil ymadawiad manwerthwyr bwyd o'r farchnad ar raddfa fawr. Comisiynwyd Uwchgynllun newydd i ategu'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol. Fodd bynnag, ni allai'r perchnogion gytuno ar gyfansoddiad terfynol y cynigion datblygu yn eu cyfanrwydd.

Yn 2016 aeth y trafodaethau ar yr Uwchgynllun i drafferthion, a chynigiodd yr Evans wedi hynny fod y Cyngor yn ystyried prynu eu buddiant lesddaliadol yng Ngham 1.

O ran gwariant angenrheidiol, o dan delerau'r Cytundeb Perchnogion cytunodd y Cyngor i ariannu "gwariant angenrheidiol" megis costau cynllunio, er mwyn i'r cynllun datblygu allu mynd rhagddo. Roedd hynny ar y sail y byddai'n cael ei ad-dalu o dderbyniadau cyfalaf yn deillio o werthu tir. Nid oes derbyniadau wedi'u creu eto. O dan delerau'r Cytundeb Perchnogion mae gofyn i'r Evans ad-dalu'r Cyngor ar 5ed pen-blwydd y gwariant, yn dechrau ar ddyddiad y Cytundeb Perchnogion. Nid oes taliad wedi dod i law eto yn hyn o beth ac ni chytunwyd ar faterion masnachol cysylltiedig chwaith.

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau ymlaen i egluro bod paragraff 4.6 yr adroddiad ymlaen yn rhoi manylion pob plws a minws ynghylch caffael buddiant yr Evans, a bod angen ystyried eu buddiant lesddaliadol yn y tir yn ofalus, oherwydd roedd yn rhaid i'r Awdurdod fod yn siŵr fod unrhyw drefniant a ddewisir yn opsiwn 'gwerth am arian'.

Cynhaliwyd prisiad cychwynnol gan Asiant Eiddo annibynnol, er mwyn pennu ym mha ystod brisiau y gallai'r Cyngor ystyried caffael y tir, ac ar sail hynny gwnaeth y Cyngor gynnig dros dro ym mis Medi 2017, gyda dyddiad dod i ben byr, a bellach cytunwyd yn

amodol ar y telerau i gaffael buddiant yr Evans yn unol â phennau'r telerau a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Roedd rhan nesaf yr adroddiad yn amlinellu'r amrywiadau arfaethedig i'r Cytundeb Perchnogion, ac roedd rhai newidiadau i'r rhain wedi'u nodi ym mharagraff 4.11 yr adroddiad, tra oedd paragraff 4.12 yn ymwneud â diwydrwydd dyledus lle'r esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y Cyngor wedi cymryd camau i ymrwymo i hyn yn drylwyr ac yn gynhwysfawr, er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwerth am arian.

Yna cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau at baragraff 4.13 yr adroddiad a'r risgiau a materion cysylltiedig â'r cynnig, gan ychwanegu bod elfen o risg ynghlwm wrth unrhyw fuddsoddiad masnachol ar y raddfa hon, er y teimlid bod y buddion i genedlaethau'r dyfodol ym Mhorthcawl yn drech na'r rhain.

Daeth â'i gyflwyniad i ben drwy rannu â'r Cyngor oblygiadau ariannol yr adroddiad o safbwynt y cynnig.

Cymeradwyodd yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet yr adroddiad yn eu tro, ac ychwanegodd yr Arweinydd fod hwn yn fuddsoddiad arwyddocaol i ardal Porthcawl a fyddai'n deillio o Dderbyniad Cyfalaf. Ychwanegodd nad oedd llawer o ardaloedd eraill yn y Fwrdeistref Sirol a allai gyflawni'r hyn a oedd yn yr arfaeth yn y lleoliad hwn ym Mhorthcawl o ran datblygiad o'r maint a'r pwys hwn.

Lleisiodd un o'r Aelodau rai pryderon ynghylch cost y Cynllun o ran lefel y buddsoddiad a oedd yn cael ei glustnodi iddo, ynghyd â'r ffaith nad oedd nifer sylweddol o gostau ymylol y gwaith a oedd i'w wneud wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Cododd gwestiynau hefyd ynghylch i ba raddau y byddai'r Evans yn elwa'n ariannol o'r fargen, a'r rhagamcanion economaidd o ran twf, o gymharu ag ymrwymiad ariannol sylweddol y Cyngor i'r cynnig. Roedd hefyd o'r farn nad oedd yr adroddiad yn amserol ac ystyried y cyfyngiadau ariannol cyfredol, ac ar adeg pan oedd y Cyngor Bwrdeistref ar fin cynyddu cyfraddau Treth y Cyngor drwy'r Fwrdeistref Sirol gyfan. Cododd bryder hefyd ynghylch yr hyn y byddai etholwyr mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol yn ei feddwl o weld faint o arian a oedd yn cael ei gyfrannu i'w fuddsoddi ym Mhorthcawl, ac yn arbennig felly'r bobl hynny sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwy difreintiedig y Fwrdeistref.

Er bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau'n cydnabod rhai o'r pryderon hyn, dywedodd fod materion fel y rhai a godwyd gan yr Aelod wedi eu hystyried yn llawn, a chafwyd cyngor arbenigol gan Asiant Eiddo a 2 brisiwr annibynnol a benodwyd i ystyried a rhoi cyngor ar werth marchnadol y tir. Ychwanegodd hefyd fod angen bachu ar y cyfle hwn nawr, gan na fyddai ar gael yn y dyfodol. Roedd o'r farn at ei gilydd, felly, fod y cynnig yn gyfle buddsoddi rhesymol a chymesur iawn, ac na allai'r Cyngor fforddio ei anwybyddu.

Croesawodd Aelodau ardal Porthcawl ynghyd ag Aelodau eraill yr adroddiad, gan ychwanegu y byddai'r cynnig yn cynnig cyfle unigryw i'r Cyngor i greu gwaith i bobl ifanc drwy'r Fwrdeistref Sirol gyfan.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr eitem i ben drwy ddweud na fyddai'r gwaith adfywio ar y safle tir llwyd mwyaf yn y Fwrdeistref Sirol yn cael ei ddatblygu pe byddai argymhellion yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau'n cael eu gwrthod. Roedd o'r farn felly fod achos cryf dros sicrhau bod yr awdurdod yn cyfrannu at y buddsoddiad hwn.

Cytunodd yr Aelodau i gael pleidlais electronig ynghylch a ddylid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar argymhellion yr adroddiad.

Dyma'r canlyniad:-

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 44 | 1 | 1 |

Felly, cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar argymhellion yr adroddiad, a dyma ganlyniad y bleidlais:

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Cyng. G Thomas | 0 | Cyng. T Beedle |
| Cyng. JH Tildesley | | Cyng. DK Edwards |
| Cyng. DBF White | | Cyng. R Penhale-Thomas |
| Cyng. N Burnett | | Cyng. E Venables |
| Cyng. P Davies | | |
| Cyng. J Gebbie | | 4 |
| Cyng. R Granville | | |
| Cyng. S Baldwin | | |
| Cyng. J Radcliffe | | |
| Cyng. T Thomas | | |
| Cyng. K Watts | | |
| Cyng. A Williams | | |
| Cyng. J Williams | | |
| Cyng. R Shaw | | |
| Cyng. B Sedgebeer | | |
| Cyng. JP Blundell | | |
| Cyng. M Jones | | |
| Cyng. M Clarke | | |
| Cyng. R Stirman | | |
| Cyng. AJ Williams | | |
| Cyng. A Pucella | | |
| Cyng. L Walters | | |
| Cyng. S Vidal | | |
| Cyng. K Rowlands | | |
| Cyng. A Hussain | | |
| Cyng. JR McCarthy | | |
| Cyng. M Kearn | | |
| Cyng. D Lewis | | |
| Cyng. JE Lewis | | |
| Cyng. JC Spanswick | | |
| Cyng. N Clarke | | |
| Cyng. CA Green | | |
| Cyng. S Aspey | | |
| Cyng. C Webster | | |
| Cyng. T Giffard | | |
| Cyng. MC Voisey | | |
| Cyng. PJ White | | |
| Cyng. D Patel | | |
| Cyng. HJ David | | |
| Cyng. HM Williams | | |
| Cyng. CE Smith | | |
| Cyng. RE Young | | |
| Cyng. P Davies | | |
| 43 | | |

Pleidleisiwyd felly o blaid derbyn yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig, fel y'i nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

107. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, er mwyn ceisio cymeradwyaeth i ddiwygio'r Cyfansoddiad i alluogi'r Awdurdod i fodloni ei ofynion o ran darparu agendâu a chofnodion yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Eglurodd fod Safon 41 yn ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu agendâu a chofnodion cyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod yn Gymraeg.

Aeth y Swyddog Monitro ymlaen i ddweud ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol sicrhau bod agendâu, cofnodion ac adroddiadau ar gael i'r cyhoedd 3 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod.

O dan ddarpariaethau'r Cyfansoddiad, mae Cynghorwyr yn cael gofyn cwestiynau i'r Weithrediaeth a chyflwyno Hysbysiadau o Gynigion, ac mae'n rhaid iddynt roi pum diwrnod clir o rybudd o hyn.

Gan fod yr Awdurdod yn anfon ei agendâu a'i gofnodion i Gaerdydd i'w cyfieithu, roedd angen tua 5 diwrnod gwaith clir rhwng eu hanfon a pharatoi'r dogfennau hyn i'w hanfon allan i'r Pwyllgor, h.y. 3 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod.

Er mwyn sicrhau bod digon o amser i drefnu cyfieithiad Cymraeg i gynnwys cwestiwn neu Hysbysiad o Gynnig fel y nodir uchod, mewn pryd i gynnwys y rhain ar agenda'r Cyngor, cynigiwyd y dylid estyn y cyfnod uchod i 10 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Roedd y Swyddog Monitro o'r farn y byddai hyn yn caniatáu digon o amser i drefnu cyfieithiad cyn cyhoeddi'r agenda yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn galluogi'r Awdurdod i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg a deddfwriaeth, h.y. o dan ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Roedd un Aelod o'r farn fod estyniad o 5 diwrnod gwaith ar gyfer y broses uchod yn rhy hir, a gofynnodd a fyddai modd cwtogi hyn i rhwng 5 a 10 diwrnod gwaith.

Atebodd y Swyddog Monitro y gallai hynny atal cyfarfodydd y Cyngor rhag mynd rhagddynt, pe na bai'r deunydd dwyieithog yn cael ei ddychwelyd mewn da bryd erbyn dyddiad anfon agendâu/cofnodion allan yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr eitem hon i ben drwy awgrymu y dylid cytuno ar gynigion yr adroddiad, ac y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Cyngor ymhen 6 mis.

Cytunodd y Cyngor.

PENDERFYNWYD: (1) Cymeradwyo diwygio paragraffau 10, 11 a 12 Rhan 4 y Cyfansoddiad, fel yr amlinellir ym mharagraff 4 yr adroddiad, i estyn y cyfnod a nodir, o 5 i 10 diwrnod gwaith.

(2) Y bydd yr Aelodau'n disgwyl adroddiad cynnydd ar y mater hwn ymhen 6 mis.

108. DISGRIFIADAU RÔL AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, er mwyn cyflwyno Disgrifiadau Rôl Aelodau Etholedig i'w cymeradwyo.

Eglurodd fod Disgrifiadau Rôl Aelodau unigol wedi'u datblygu ar sail y disgrifiadau rôl enghreifftiol a luniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond eu bod wedi'u teilwra i ofynion swyddogaethau Cynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a atodir yn Atodiadau 1–19 yr adroddiad.

Roedd Atodiad 20 yr adroddiad yn nodi manylion y canllawiau generig ar gyfer rolau Cyrff Allanol.
Roedd paragraff 4.3 yr adroddiad yn cynnwys manylion gofynion y Siarter, h.y. Siarter Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr CLILC, ac ar ffurf tablau, disgrifyddion ar gyfer rolau Aelodau unigol, ac roedd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am Gyrff Allanol.

Roedd paragraff 4.5.1 yr adroddiad yn argymell y dylid cymeradwyo a defnyddio Disgrifiadau Rôl Aelodau yn unol â'r amserlenni a awgrymir yn yr adran hon o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Disgrifiadau Rôl Aelodau Etholdeig a atodir ar ffurf Atodiadau i'r adroddiad.

109. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

PENDERFYNWYD: Nodi'r Adroddiadau Gwybodaeth sydd yn yr adroddiad uchod gan y Swyddog Monitro.

110. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL I'R CABINET

**1. Cwestiwn i Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio gan y Cynghorydd Timothy Thomas**

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer ehangu a hyrwyddo Addysg Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol a sut bydd yr awdurdod hwn yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Ateb Mae manylion llawn uchelgeisiau'r awdurdod lleol ar gyfer addysg Gymraeg yn y Fwrdeistref wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi 11 o dargedau i hyrwyddo darpariaeth Gymraeg dros y tair blynedd nesaf.

Byddwn yn:

- datblygu dichonoldeb darpariaeth Gymraeg ar gyfer Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif – gyda chymorth arolwg o'r galw ymhlith dysgwyr a'r adolygiad strategol a'r archwiliad o ddigonolrwydd gofal plant;
- denu 5% yn fwy o blant i ysgolion cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf drwy gyflwyno deunyddiau hyrwyddo'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru sy'n nodi manteision bod yn ddwyieithog a thrwy ychwanegu rhagor o ddarpariaeth lle mae digon o alw amdani;
- parhau i ddatblygu a gweithredu strategaeth i gadw mwy o blant mewn addysg Gymraeg yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, gan gynnwys yr adolygiad sydd ar y gweill o gymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg;

- sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael i bob plentyn oedran cyn-ysgol a throsodd y mae eu rhieni/gofalwyr am iddynt gael eu gofal/addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol i gartrefi'r plant;
- sicrhau continwwm sy'n datblygu o addysg gynradd Gymraeg i addysg uwchradd Gymraeg, fel bod disgyblion sy'n dechrau eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd ymlaen i ysgolion uwchradd Cymraeg ac ymlaen wedi hynny i addysg bellach ac uwch a hyfforddiant;
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei dysgu fel iaith gyntaf a/neu ail iaith ar amserlen pob un o'n hysgolion, yn unol â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol, a sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i sefyll arholiad wedi'i achredu'n allanol yn Gymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4
- sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfle cyfartal yn ieithyddol o ran addysg Gymraeg, yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru a Strategaeth y Cyngor ar gyfer Cynhwysiant Addysgol a'r Bil Diwygio ADY newydd;
- sicrhau bod pob disgybl mewn ysgol Gymraeg ddynodedig yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol i wella safon y Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith;
- datblygu ymhellach wybodaeth a dealltwriaeth athrawon o'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith, a darparu cyfleoedd i ddisgyblion i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ethos/nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru drwy'r Cwricwlwm Cymreig; a
- hybu datblygiad ehangach sgiliau Cymraeg disgyblion drwy weithgareddau a phrosiectau penodol, ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid.

Y gobaith yw y bydd y cynlluniau uchelgeisiol hyn yn cynorthwyo targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas**

'Gan gyfeirio at baragraff cyntaf eich ateb ynghylch Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, beth yw eich ymrwymiadau cyllid cyfalaf band B i addysg Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol? Hefyd, ac ystyried y gwaith mawr sy'n digwydd i godi tai yn ardal Porth y Cymoedd, a allwn ddisgwyl unrhyw gyllid cyfalaf Band B yn yr ardal i liniaru'r pwysau ar ysgolion Cymraeg sydd eisoes yn bodoli?'

<u>Ateb:</u> Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd at yr angen i gynyddu darpariaeth addysg Gymraeg yn y Sir a chyfeiriodd at y rheidrwydd, a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Pen-y-bont ar Ogwr, i hybu'r Gymraeg. Croesawodd yr Arweinydd y gwaith sy'n digwydd ar Ysgol Cwm Garw o dan Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Altaf Hussain**

Diolch am roi gwybod i ni am yr 11 targed i hybu darpariaeth Gymraeg dros y 3 blynedd nesaf. A wnaiff Aelod y Cabinet sôn wrthym am amcanion neu gamau eraill y dylid eu cynnwys er mwyn gwella'r seilwaith sy'n helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

<u>Ateb</u>: Nododd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu nifer o amcanion i hybu'r Gymraeg; mewn ysgolion, gyda theuluoedd ac yn y gweithle. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd ymhellach fod Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o gamau allweddol i helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Nododd y

bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldeb i hybu'r Gymraeg.

**2. Cwestiwn gan y Cynghorydd Altaf Hussain i Aelod y Cabinet dros Gymunedau**

Ac ystyried y tywydd garw diweddar yn y Fwrdeistref Sirol a'r lefelau arwyddocaol o waith parhaus yn eich portffolio, h.y. ceudyllau a goleuadau stryd ac ati, a wnaiff Aelod y Cabinet dros Gymunedau roi gwybod i mi sut y mae'r gwaith hwn wedi'i flaenoriaethu. Rwyf yn siŵr bod y Cyngor hwn yn awyddus i sicrhau bod cyn lleied â phosib o berygl i'n preswylwyr gael anafiadau a thebygolrwydd y bydd damweiniau traffig ar y ffyrdd yn digwydd er mwyn osgoi costau ychwanegol i'r Cyngor ac er mwyn cefnogi iechyd a lles ei breswylwyr.

Ateb: Mae ein Hadran Briffyrdd yn hen gyfarwydd ag ymdrin â thywydd garw'r adeg hon o'r flwyddyn.

Mae gennym gynllun cynnal a chadw yn y gaeaf **(mae copi yn ystafell yr Aelodau)** sy'n amlinellu sut y mae ffyrdd yn cael eu blaenoriaethu i'w trin a bod rota wedi'i threfnu i'r staff sy'n rheoli rhagolygon y gaeaf a gofynion graeanu'r Fwrdeistref. Gellir rhoi'r rhain ar waith hefyd os bydd llifogydd yn bosib.

Pan geir digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhew yn unig, os ceir galwadau oddi ar y prif ffyrdd bydd swyddog yn mynd yno i asesu a oes angen ymdrin â'r mater yn y fan a'r lle, a bydd hynny'n cael ei flaenoriaethu ochr yn ochr â'r gwaith parhaus i wasgaru halen h.y. pan fydd yr holl brif ffyrdd wedi eu trin a phan fydd amser i fynd i weld y safle.

Os ceir tywydd mwy garw megis eira, bydd adnoddau'n cael eu cyfeirio o'r gwaith cynnal arferol i ymdrin â hynny. Digwyddiadau byrhoedlog yw'r rhain fel arfer, a gallwn ailgydio yn ein gwaith cynnal arferol.

O ran diffygion ar y priffyrdd, mae'r awdurdod yn archwilio'r priffyrdd yn rheolaidd i weld a oes diffygion. Fodd bynnag, os rhoddir gwybod i'r Cyngor am unrhyw ddiffygion megis ceudyllau drwy ei ganolfan alwadau ganolog, cynhelir asesiad cychwynnol i weld a oes angen archwiliad unigol i asesu'r diffyg, ac yna trefnir amser i wneud y gwaith atgyweirio os yw hynny'n briodol. Pe byddai diffyg brys yn codi o ran diogelwch, byddem yn rhoi amser ymateb 24 awr ac yn trefnu i wneud unrhyw waith atgyweirio arall ymhen 28 diwrnod pe byddai angen gwneud hynny.

O ran ein goleuadau stryd ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf daeth 150 o geisiadau am wasanaeth i law y mis ar gyfartaledd ac roedd yn cymryd 4 diwrnod ar gyfartaledd i ymweld â'r safle a gwneud y gwaith atgyweirio (heblaw arwyddion a cheblau diffygiol)

Ym mis Tachwedd cawsom 296 o geisiadau am wasanaeth a chymerwyd 4.72 diwrnod ar gyfartaledd i ymateb. Hyd at 12 Rhagfyr roedd gennym 535 o docynnau ac amser cwblhau'r rhain ar gyfartaledd oedd 5.65 diwrnod.

Er bod gennym darged o 5 diwrnod ar gyfer trwsio goleuadau stryd, mae misoedd y gaeaf yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwaith hwn ochr yn ochr â darparu a chynnal a chadw addurniadau Nadolig.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Altaf Hussain**

Diolch i Aelod y Cabinet am ei ateb a'i gyhoeddiad yn gynharach yn y Siambr. Rwyf yn dal i fod yn bryderus am Atgyfeiriadau'r Aelodau, sydd, ar ôl i'r Cynghorydd eu cyflwyno a nodi weithiau fod angen gweithredu ar frys neu ar unwaith arnynt, yn cael eu hanfon i'r adran dan sylw, sydd wedyn yn cael 10 diwrnod i ymateb a gall gymryd dyddiau, wythnosau neu fisoedd lawer wedyn i'r adran weithredu. Edrychwch ar yr achos diweddar yn Kier pan adawyd gwastraff am ddyddiau lawer ar fin y ffordd. Fy nghwestiwn yw hyn: pwy sy'n blaenoriaethu'r Atgyfeiriadau hyn? Ni ddylem fod yn creu rhestrau aros anodd eu rheoli fel sydd wedi digwydd yn y GIG am na wnaethom flaenoriaethu atgyfeiriadau cleifion.

Ateb: Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod Atgyfeiriadau Aelodau'n dod i law'r Adran Gwasanaethau i Aelodau, ac yna'n cael eu hanfon i'r Gyfarwyddiaeth berthnasol er mwyn gweithredu arnynt ymhen 10 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn, gall yr Atgyfeiriad gael ei ddatrys yn llwyr a bydd yr Aelod yn cael gwybod bod hynny wedi digwydd. Er hynny, o bryd i'w gilydd bydd angen ymchwilio ymhellach i'r Atgyfeiriad a bydd angen i nifer o Gyfarwyddiaethau gyfrannu at y broses, a hyd yn oed gyrff y tu allan i'r Cyngor Bwrdeistref. Bydd hynny'n cymryd mwy o amser a bydd yr Aelod yn cael gwybod mai dyna sydd wedi digwydd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod methodoleg ar waith ar gyfer prosesu Atgyfeiriadau, a'u blaenoriaethu hefyd. Er hynny, roedd nifer fawr o Atgyfeiriadau'n cael eu cyfeirio i'w Gyfarwyddiaeth ef a gallai'r rhain, er enghraifft, fod yn geisiadau i drwsio ceudyllau ar briffordd, neu i ddefnyddio mwy o oleuadau stryd ac ati mewn ardaloedd lle mae'r golau'n wan. Y broblem fodd bynnag oedd fod ei Gyfarwyddiaeth ef yn benodol wedi dioddef toriadau i'r gyllideb dro ar ôl tro dros y blynyddoedd diwethaf, ac nad oedd digon o adnoddau i wneud llawer o'r gwaith yr oedd etholwyr yn gofyn amdano drwy eu Haelod lleol, ac felly roedd angen nid yn unig blaenoriaethu'r Atgyfeiriadau, ond yn aml iawn hefyd dim ond mewn cyfnod cymharol fyr y gellid eu datrys, os oeddent yn cael eu hystyried yn rhai brys neu'n beryglus i'r cyhoedd. Roedd yn cymryd mwy o amser o lawer i ddatrys Atgyfeiriadau eraill llai pwysig yn nhrefn eu blaenoriaeth. Roedd Aelod y Cabinet dros Gymunedau'n cytuno â'r hyn a ddywedodd y Swyddogion, ac ychwanegodd y byddai'n arbed amser weithiau pe bai Aelod lleol, yn hytrach na chwblhau Atgyfeiriad, yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddog priodol yn y Gyfarwyddiaeth berthnasol, neu'n codi'r mater gyda'r Aelod Cabinet perthnasol (hefyd yn uniongyrchol).

111. HYSBYSIAD O GYNNIG

**Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Bridie Sedgebeer**

Cau canghennau'r NatWest yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Cyngor hwn yn mynegi ei bryder mawr ynghylch y cynnig i gau canghennau banc y NatWest ym Mhencoed, Maesteg a Phorthcawl.

Bydd y cynnig i gau'r tair cangen hon yn ein sir yn andwyol i ffyniant ein cymunedau.

Mae cwsmeriaid, yn enwedig preswylwyr hŷn, yn dibynnu ar allu galw i mewn i'w cangen leol i drin a thrafod eu harian. Mae'r ddarpariaeth o ran adnoddau bancio lleol wyneb yn wyneb wedi crebachu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a bydd yn golygu nad oes cangen o'r un banc ym Mhencoed. Mae newidiadau technolegol yn helpu cwsmeriaid i ddefnyddio gwasanaethau bancio mewn ffyrdd gwahanol ond rhaid i'r banciau beidio ag anwybyddu anghenion y cwsmeriaid hynny nad ydynt yn gallu defnyddio/dod i ben â'r ffyrdd newydd hyn.

Mae’r Cyngor hwn yn gofyn i’r Arweinydd ysgrifennu at NatWest, i ofyn i’r banc ailystyried ei safbwynt o ran cau’r tair cangen hon a chytuno i gymryd camau rhesymol i gefnogi preswylwyr, grwpiau cymunedol a busnesau i ystyried posibiliadau eraill, gan gynnwys gweithio gydag undebau credyd a changhennau niwtral ar y cyd.

PENDERFYNWYD: Cefnogi’r Hysbysiad o Gynnig uchod, yn amodol ar yr isod:-

1. Bod y Cyngor hefyd yn mynd ar drywydd Bancio Symudol drwy’r dulliau priodol
2. Bod ASau ac ACau yn cael eu lobïo i annog mwy o ddefnydd ar Undebau Credyd a Bancio Cymunedol, drwy wasanaethau ar y cyd.
3. Archwilio dichonoldeb gosod rhagor o adnoddau twll yn y wal yn ardal Porth y Cymoedd, ac mewn mannau a ddefnyddir yn rheolaidd gan y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sydd ym mherchnogaeth neu dan ofal yr awdurdod lleol. Gellid trafod hyn â LINC.

112. MATERION BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10